# SL(5)203 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2018

## Cefndir a Phwrpas

Cyflwynodd Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003") fframwaith cyfreithiol y caiff llywodraeth leol ymgymryd â gwariant cyfalaf oddi mewn iddo. Caiff Gweinidogion Cymru reoleiddio'r gweithgarwch hwnnw drwy reoliadau. Gwnaed darpariaeth o'r fath gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (OS 2003/3239) ("**Rheoliadau 2003**") sy'n darparu'r gyfundrefn reoleiddiol ar gyfer cyllid cyfalaf llywodraeth leol ac arferion cyfrifyddu sydd i'w dilyn gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Rheoliadau 2003 wedi'u diwygio sawl gwaith ers dod i rym.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud cyfres o ddiwygiadau pellach i Reoliadau 2003, y bydd nodiadau'r Memorandwm Esboniadol yn "llacio'r cyfyngiadau presennol o ran trafodion cyfalaf benthyciad, trafodion cyfalaf cyfranddaliadau a bondiau penodol sy'n gosod awdurdodau lleol yng Nghymru ar sail gyfatebol i gymheiriaid yn Lloegr."

Mae'r diwygiadau penodol yn cynnwys y canlynol:

- Gofyniad i drafodion gwarantoli gael eu trin fel trefniadau credyd at ddibenion adran 7 o Ddeddf 2003 a gwerth unrhyw ystyriaeth a gafwyd o ganlyniad i drafodyn gwarantoli gan awdurdod lleol i gael ei drin fel derbyniad cyfalaf;
- Tynnu'r gofyniad am wariant gan awdurdodau lleol ar gaffael cyfalaf benthyciad i gael ei drin fel gwariant cyfalaf; ac
- eithrio gwariant ar gaffael mathau penodol o gyfalaf cyfranddaliadau (mewn cynlluniau buddsoddi ar y cyd) rhag cael ei drin fel gwariant cyfalaf.

## Y weithdrefn

Negyddol.

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Goblygiadau sy'n deillio o adael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn diffinio "cronfa'r farchnad arian" drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth yr UE, hy Cyfarwyddeb 2009/65/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 13 Gorffennaf 2009 ar gydlynu cyfreithiau, rheoliadau a darpariaethau gweinyddol sy'n ymwneud ag ymrwymiadau ar gyfer buddsoddiad ar y cyd mewn gwarantau trosglwyddadwy.

Felly, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried priodoldeb parhaus y diffiniad hwn yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**3 Ebrill 2018**